PRYTHERCH, WILLIAM (1804-1888), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

Enw: William Prytherch
Dyddiad geni: 1804
Dyddiad marw: 1888
Priod: Prytherch
Priod: Joyce Prytherch (née Evans)
Plentyn: William Eliezer Prytherch
Rhiant: Thomas William Rytherch
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Beynon

Ganwyd 25 Ebrill 1804 yn Nh 'n-yr-heol, plwyf Cynwyl Gaeo, yn fab i Thomas William Rytherch. Bu dan addysg yn nhref Caerfyrddin, a chynorthwyai David Charles yn y cyfarfodydd cyhoeddus. Dechreuodd bregethu yn eglwys Caeo yn 1825. Yn 1831 priododd Joyce, merch Thomas Evans Pumsaint. Wedi gadael ardal Caeo preswyliodd mewn amryw fannau yn Sir Gaerfyrddin - Llanegwad, Llanfynydd, Betws, Nantgaredig a Ferryside. Ordeiniwyd ef yn 1839. Ailbriododd yn 1861 â Mrs. Jones, Llandeilo-yr-ynys. Yr oedd i William Prytherch ei le ei hun fel pregethwr gwreiddiol a naturiol, ffraeth ei ymadrodd a chartrefol ei ddull. Yr oedd un o'i oedfaon ymhlith y rhai mwyaf a gofiai'r Dr. Owen Thomas. Bu farw 20 Tachwedd 1888 yn Ferryside.

Mab iddo ef oedd

WILLIAM ELIEZER PRYTHERCH (1846 - 1931), gweinidog Crefydd yn yr un cyfundeb;

Ganwyd 28 Mehefin 1846 yn Llwyn Owen, fferm ym mhlwyf Cilycwm. Bu'n ysgolfeistr yn Nhycroes, Garnswllt, a Phentrebach. Dechreuodd bregethu 10 Medi 1863 ym Mhentrebach, ysgoldy dan nawdd eglwys y Gopa, Pontardulais. Ym mis Hydref 1868 cymerodd ofal eglwysi Brechfa a Phontynyswen, ac yn haf 1869 priododd â Margaret Gregory, Rhosili. Ordeiniwyd ef yn Llandeilo, 9 Awst 1870, ac yn 1872 dychwelodd i'r Gopa i fugeilio'r eglwys. Ailbriododd 10 Ebrill 1894, â Margaretta, ferch y Parch. John Richards, Llechryd. Ym mis Hydref 1894 symudodd i Abertawe i fugeilio eglwys y Triniti fel olynydd i'r Dr. David Saunders. Bu'n llywydd y gymanfa gyffredinol yn 1905, ac yn llywydd cymdeithasfa'r Deheudir yn 1907. Cyhoeddwyd cyfrol o'i bregethau, *Hau a Medi*, yn 1912. Pregethwr y bobl ydoedd; heulog ei bersonoliaeth, gwerinol ei ymadrodd, a nerthol ei ddawn. Â'i ddull agos a bywiog enillai ei gynulleidfa yn ddiymdroi, a'i dal â'i ddarluniau naturiol a'i apeliadau taer. Bu farw 11 Hydref 1931 yn Abertawe.

Awdur

Y Parchedig Robert Beynon, (1881 - 1953)

Ffynonellau

T. E. Edwards, *Cofiant y diweddar a'r parchedig William Prytherch, o Sir Gaerfyrddin: ynghyd a detholion o'i bregethau* (Dinbych 1894), 1894

Y Drysorfa, 1889, 28

P. H. Griffiths, *Y Parchedig W. E. Prytherch (dyn un peth) cofiant*, 1937

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734699

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu